# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 2 Mehefin 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | A.Dacey, N.Goldup-John a/ac L.Williams |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Morris, M.Roberts, J.Stevens, S.Cook, A. Collins a/ac T.Rees |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | S.Jones, W. Fryer Griffiths a/ac J.Hurley |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

   Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

   Manteisiodd yr aelodau hefyd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am yr ymateb prydlon i ailagor y llwybr ar gyfer beicwyr a cherddwyr rhwng Pont-rhyd-y-fen a Chimla yn dilyn y cais yn ystod y cyfarfod diwethaf.

4. **I YSTYRIED ARGYMHELLION Y GRWP TASG A GORFFEN AR ADRODDIAD ADOLYGU OPSIYNAU PARCIO 2023**

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg byr o'r grŵp gorchwyl a gorffen a'r cyd-destun y tu ôl iddo a dywedodd fod adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yma i'r aelodau ei gymeradwyo. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod y pwyllgor wedi gofyn yn wreiddiol am adolygiad o drefniadau parcio dros y Nadolig er mwyn ystyried opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy o gwmpas adeg y Nadolig. Roedd yna hefyd darged cynhyrchu incwm o £300,000 a oedd wedi dod o'r gyllideb, felly edrychwyd ar yr holl opsiynau parcio ar gyfer 2023.

Dywedodd y Cadeirydd fod y sesiynau'n gynhyrchiol iawn a diolchodd i'r swyddogion am eu hymdrechion yn ystod y sesiynau. Hysbyswyd yr aelodau fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi bod yn ofalus i sicrhau bod eu hargymhellion yn realistig yng nghefndir y gyllideb a'r targed incwm.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y pwyllgor nad oedd yr argymhelliad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a chyflwynodd yr argymhelliad ychwanegol a ganlyn i'r Cabinet a swyddogion ei ystyried.

Penderfynwyd bod canlyniadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A yn cael eu cymeradwyo i Fwrdd Amgylchedd, Adfywio a Strydlun y Cabinet, yn amodol ar yr argymhelliad canlynol:

Adolygu oriau gweithredu parthau i gerddwyr yng nghanol tref Castell-nedd er mwyn ystyried cau'r parth i gerddwyr yn unig i gerbydau gyda'r nos yn ogystal ag yn ystod y dydd.

Gwahodd Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd i gyfarfod nesaf Pwyllgor Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun i adrodd yn ôl ar ei ystyriaeth o'r materion a gyflwynwyd.

Bod yr adroddiad ynghyd â'r gwelliant yn cael ei gymeradwyo i fwrdd y Cabinet.

## 5. <u>ADRODDIAD DIWEDDARU IARD BURROWS</u>

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am baratoi'r adroddiad yn unol â chais yr aelodau ac roedd yn gwerthfawrogi ei fod yn ddiweddariad byr.

Nodwyd yr adroddiad.

6. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Ni chraffodd yr Aelodau ar yr eitemau cyhoeddus ar agenda Bwrdd y Cabinet.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

8. **BLAENRAGLEN WAITH**

Atgoffodd y Cadeirydd y pwyllgor eu bod wedi cynnal sesiwn Blaenraglen Waith i benderfynu ar y Flaenraglen Waith ar gyfer y flwyddyn ddinesig i ddod.

Cytunodd Aelodau’r Pwyllgor y dylid cynnwys yr eitem ganlynol ar y Flaenraglen Waith:

Gofyn am adroddiad gan Hwb Trafnidiaeth Integredig Castell-nedd (NITH) sy’n cynnwys y cynnydd hyd yma, cefndir y cynnig, a’r dogfennau dilynol:

- Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 1
- Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2
- Adroddiad canopi Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain
- Dogfennau cefndir eraill

Bod yr Aelodau'n derbyn y dogfennau y gofynnwyd amdanynt 14 diwrnod cyn y cyfarfod nesaf.

9. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

10. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Caffael Capel Soars, Maes yr Haf, Castell-nedd

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**